**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

20 Rhagfyr 2024

Annwyl Peredur,

Ysgrifennaf yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 ar 12 Rhagfyr a'ch llythyr a ddilynodd ar 13 Rhagfyr.

Fe anfonaf adroddiad alldro 2023-24 i'r Pwyllgor Cyllid yn unol â'n hymrwymiad i ddarparu adroddiad alldro o fewn tair wythnos i gyhoeddi ein cyfrifon blynyddol. Fe fydd hyn ar yr un strwythur Prif Grwpiau Gwariant â'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 (hynny yw, y strwythur oedd yn weithredol ar y pryd yn hytrach na'r strwythur presennol).

Mae'r wybodaeth ar Gyllideb Derfynol 2024-25 a'r addasiadau i'r llinell sylfaen o'r Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Gyllideb Ddrafft i'w gweld yn y Tablau sy'n ategu'r cynlluniau gwario a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2025-26.

Fe ofynnoch i wybodaeth gael ei ddarparu mewn ffurf sydd yn galluogi cymharu newidiadau cyllidebol ar draw cyfnod 2023-24 i 2025-26. Rydw i wedi gofyn i fy swyddogion ystyried beth all gael ei ddarparu, o ystyried newidiadau i bortffolios Gweinidogol a'r strwythurau Prif Grwpiau Gwariant cyfatebol sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto yn gynnar ym mis Ionawr i'ch diweddaru.

Fe ofynnoch chi hefyd am effaith gosod Fformiwla Barnet ar lefel o 115%, yn hytrach na 105%, ar lefelau cyllid Llywodraeth Cymru. Pe byddai'r ffactor angen wedi ei osod ar lefel o 115% yng nghyllideb yr Hydref y DU yn lle 105%, byddai grant bloc Llywodraeth Cymru wedi bod £76m yn uwch yn 2024-25 a £167m yn uwch yn 2025-26.

Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft, gofynnodd aelodau am amcangyfrif o'r costau uniongyrchol ychwanegol i'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn deillio o'r newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyhoeddwyd yng nghyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref. Mae'r tabl isod yn cynnwys ein hamcangyfrif gorau o'r costau hyn ar hyn o bryd. Bydd yr amcangyfrifon hyn yn cael eu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mireinio ymhellach wrth i gyrff ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer 2025-26. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r pwyllgor gadw hyn mewn cof wrth ystyried y tabl.

Mae Trysorlys EM wedi cydnabod y bydd y newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu costau i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac y bydd yn "darparu cyllid i'r sector cyhoeddus i'w cefnogi gyda'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn". Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EM i gadarnhau'r manylion a lefel y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu.

| **Sector/ cyrff** | **Amcangyfrif o'r gost (£m)** |
|---|---:|
| Y GIG (wedi'u cyflogi'n uniongyrchol) | 112 |
| Llywodraeth leol, gan gynnwys Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | 77 |
| Athrawon | 33 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 4 |
| Addysg bellach | 9 |
| Llywodraeth Cymru | 7 |
| Cyrff Hyd Braich | 11 |
| **Cyfanswm** | **253** |

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu ymhellach â'r pwyllgor yn 2025.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language